ADDYSGU PYNCIAU LLOSG

Canllaw i athrawon

OXFAM WE WON'T LIVE WITH POVERTY

CYFLWYNIAD

Mae'r canllaw hwn yn ystyried:

- Beth yw pynciau llosg?
- Y rhesymau dros addysgu pynciau llosg.
- Gwerth dull addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang.
- Canllawiau a strategaethau ar gyfer archwilio a thrafod pynciau llosg yn yr ystafell ddosbarth.
- Rhai gweithgareddau ymarferol ar gyfer addysgu pynciau llosg.

Efallai nad ydym yn gwybod beth sydd ar y gorwel ar gyfer pobl ifanc heddiw, ond gallwn fod yn hyderus y byddant yn wynebu penderfyniadau am ystod eang o faterion sy'n ysgogi ymatebion cryf, amrywiol ac, yn aml, dadleuol. Er mwyn i bobl ifanc ddatblygu'n ddinasyddion lleol a byd-eang effeithiol, sy'n gallu chwarae rhan hanfodol wrth greu byd teg heb dlodi, mae angen i bob un ohonynt gael cyfle i ymdrin yn briodol â phynciau llosg.

Mae gan athrawon rôl allweddol i'w chwarae o ran galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau y mae arnynt eu hangen i wneud hyn. Fel addysgwyr, nid oes disgwyl i ni wybod yr holl atebion. Yn hytrach, mae datblygu dulliau effeithiol o drafod pynciau llosg yn galluogi athrawon i herio eu safbwyntiau eu hunain ac i archwilio syniadau yn fanylach gyda phobl ifanc.

Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o ganllaw poblogaidd Oxfam yn cydnabod y newidiadau mewn cyd-destunau cymdeithasol a gwleidyddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn ceisio cefnogi addysgwyr wrth drafod â phobl ifanc yn yr amgylchedd cymhleth hwn. Mewn cyfnod sydd â mwyfwy o rwygiadau a holltau, mae sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n hyderus wrth fynd i'r afael â phynciau llosg yn bwysicach nag erioed. Mae datblygiadau ym maes technoleg a thwf yn y cyfryngau cymdeithasol yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed i bobl ifanc feddwl yn feirniadol er mwyn dod yn ddinasyddion byd-eang effeithiol.

Mae'r canllaw hwn yn addas i'w ddefnyddio gyda phob oedran, gan gynnwys plant o dan bum mlwydd oed hyd at unigolion ôl-16, a hynny ledled ystod eang o feysydd y cwricwlwm. Mae'n briodol i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth, i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm, ac ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at blant fel "pobl ifanc" trwyddo draw. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd mor ifanc â phum mlwydd oed, oherwydd mae'n bwysig annog y broses o feithrin y sgiliau sy'n ofynnol i gynnal sgyrsiau heriol o oedran ifanc.

Photo: Chris o'Donovan/Oxfam

Nid oes angen i addysgwyr wybod pob ateb er mwyn addysgu pynciau llosg yn dda.

BETH YW PYNCIAU LLOSG?

Nid oes yna ddiffiniad y cytunwyd arno o'r hyn y mae pwnc llosg yn ei olygu, ond at ddiben y canllaw hwn, gellir diffinio pwnc llosg fel rhywbeth sy'n gwneud y canlynol:

- Yn ysgogi teimladau a safbwyntiau cryfion.
- Yn effeithio ar y cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y mae pobl yn byw ynddo.
- Yn ymdrin â chwestiynau am werthoedd a chredoau, ac yn gallu hollti barn rhwng unigolion, cymunedau a'r gymdeithas yn ehangach.
- Yn aml yn gymhleth, heb unrhyw "atebion" clir, a hynny am ei fod yn rhywbeth y mae pobl yn meddu ar safbwyntiau cryfion yn ei gylch, sy'n seiliedig ar eu profiadau, eu diddordebau, eu gwerthoedd a'u cyd-destun personol eu hunain.
- Yn codi mewn ystod o raddfeydd sy'n effeithio ar gymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.· Yn cynnwys ystod eang o bynciau, er enghraifft hawliau dynol, cyfiawnder rhywedd, mudo a'r newid yn yr hinsawdd.
- Yn gallu amrywio yn dibynnu ar amser a lleoliad, ac yn gallu bod yn hirdymor neu'n ddiweddar iawn.
- Er enghraifft, gallai mater sy'n bwnc llosg mewn un wlad neu gymuned fod yn rhywbeth a dderbynnir yn gyffredinol mewn gwlad neu gymuned arall.

Gall bron unrhyw fater ddod yn bwnc llosg os bydd unigolion neu grwpiau'n cynnig esboniadau gwahanol ar gyfer digwyddiadau, yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf, neu'r modd y dylid datrys problemau. Hefyd, os bydd un agwedd ar fater yn cael ei chyflwyno mewn modd sy'n ennyn ymateb emosiynol ymhlith y rheiny a allai anghytuno.

Er y gall ymatebion pobl ifanc i'r materion hyn fod yn gyflym ac yn ddwys iawn, gall dadleuon hefyd ysgogi arferion meddwl a dealltwriaeth dyfnach, gan arwain at waith ymchwil pellach, mwy o ddiddordeb mewn athroniaeth foesol a gwleidyddol, a gwell dealltwriaeth o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol a rhyngwladol. O ganlyniad, mae pynciau llosg yn cynnig cyfleoedd addysgol gwerthfawr, lle gellir archwilio gwerthoedd a syniadau mewn man diogel, a chefnogi'r broses o archwilio a gwyntyllu'r modd y mae eich safbwyntiau eich hun, a safbwyntiau pobl eraill, yn cael eu ffurfio a'u newid.

Llun: Abbie Trayler-Smith/Oxfam

Mae pynciau llosg yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gynnal sgyrsiau pwysig yn yr ystafell ddosbarth, a hynny wrth archwilio gwerthoedd a syniadau mewn man diogel.

PAM ADDYSGU PYNCIAU LLOSG?

Mae'n bwysig creu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu cyfathrebu â'i gilydd, a hynny trwy ganolbwyntio ar faterion y maent yn meddu ar safbwyntiau gwahanol yn eu cylch. Trwy gynnal sgyrsiau mewn man diogel, gall pobl ifanc ddysgu am faterion a'u deall, yn ogystal â gwerthuso eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain yn feirniadol. Trwy wneud hyn, mae pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i feithrin eu gallu i ymdopi ag amgylchiadau heriol yn eu bywydau a'u cymunedau eu hunain. Dyma rai rhesymau eraill dros addysgu pynciau llosg:

Maent yn rhan o'r cwricwlwm

Mae'r gwaith o addysgu pynciau llosg yn rhan o gyngor cwricwlaidd ledled y Deyrnas Unedig. Gallai'r angen i drafod pwnc llosg godi mewn unrhyw bwnc, a gallai addysgu pynciau llosg fod yn ffordd o gryfhau'r dysgu trawsgwricwlaidd ledled y meysydd pwnc.

I ryw raddau, mae'r holl gwricwla cenedlaethol yn disgwyl i faterion o'r fath gael eu trafod ac i addysgwyr ddarparu ystod eang o gyfleoedd i gyflawni hynny. Cydnabyddir yn eang bwysigrwydd datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd yn y byd go iawn, a hynny er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer cymhlethdodau bywyd yn yr 21ain ganrif.
Yn benodol:

Yr Alban	Cymru	Lloegr
Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn thema drawsbynciol ledled profiadau a deilliannau cwricwlwm yr Alban. Yn ogystal, mae gan bob disgybl yr hawl i Ddysgu ar gyfer Cynaliadwyedd, a ddiffinnir fel ymrwymiad i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol, dinasyddiaeth fyd-eang, cyfranogiad democrataidd a byw o fewn terfynau ecolegol y blaned. Mae Addysg Grefyddol a Moesol, Iechyd a Lles a Phynciau Cymdeithasol yn ymdrin â phynciau llosg yn benodol, ond disgwylir i athrawon addysgu "Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd" ymhob pwnc.[1]	Yng Nghymru, ymdrinnir â phynciau llosg trwy'r fframwaith ABCh a'r canllawiau ADCDF. Nod y cwricwlwm ABCh yw "hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth ... galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang". Mae cyflwyno'r cwricwlwm ADCDF yn anelu at "werthfawrogi, dathlu a dangos sensitifrwydd i amrywiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang".[2]	Yn Lloegr, mae'r cwricwlwm Dinasyddiaeth yn nodi y dylai addysgu roi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae ar ddisgyblion eu hangen i archwilio materion gwleidyddol a chymdeithasol yn feirniadol, i bwyso a mesur y dystiolaeth, i gynnal dadl ac i gyflwyno dadleuon rhesymegol. Dylai hefyd baratoi disgyblion i gamu i'w lle mewn cymdeithas, a hynny fel dinasyddion cyfrifol.[3] Gallai'r gwaith o addysgu pynciau llosg gyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth Ysbrydol, Foesol, Gymdeithasol a Diwylliannol. Er enghraifft, mae datblygiad cymdeithasol yn cynnwys y cyfle i ddatblygu ac arddangos sgiliau ac agweddau a fydd yn galluogi'r bobl ifanc i gymryd rhan lawn ym mywyd Prydain fodern, yn ogystal â chyfrannu'n gadarnhaol ato.[4]

Yn ychwanegol at ganllawiau'r cwricwlwm, mae gan athrawon gyfrifoldeb i ddarparu mannau diogel ar gyfer trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth, a phan fyddant yn gwneud hynny, disgwylir iddynt archwilio'r materion hyn mewn perthynas â pholisïau cyfredol y llywodraeth. Mae'n bwysig nodi bod addysgu pynciau llosg yn mynd y tu hwnt i gwmpas pynciau tebyg i derfysgaeth ac eithafiaeth, ond bydd y dulliau ar gyfer ymdrin â sgyrsiau anodd, a geir yn y canllaw hwn, yn ddefnyddiol wrth ymdrin â'r meysydd hynny.

Mae angen i bobl ifanc archwilio eu gwerthoedd a datblygu eu sgiliau

I bobl ifanc, gall y byd ymddangos yn anodd ei drin, a hynny ar lefel bersonol ac ar lefel fyd-eang. Ond ni ddylent gael eu cysgodi rhag pynciau llosg – mae'n bwysig eu bod yn deall eu hemosiynau a'u gwerthoedd ac yn dysgu meddwl ar eu liwt eu hunain. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod gwerthoedd yn hanfodol bwysig wrth annog pobl i fynegi pryderon am faterion cymdeithasol ac amgylcheddol, er enghraifft tlodi a'r newid yn yr hinsawdd.[5]

Felly, bydd meithrin a chryfhau parch ac empathi yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu at newid cymdeithasol, a hynny fel dinasyddion byd-eang.

Bydd meithrin a chryfhau parch ac empathi yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu at newid cymdeithasol, a hynny fel dinasyddion byd-eang.

Mae hunan-barch, sy'n hanfodol i addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ac i gefnogi datblygiad personol ac academaidd, yn rhagofyniad ar gyfer trafod materion byd-eang ehangach os yw pobl ifanc am fynd i'r afael ag anghytundeb a chydnabod safbwyntiau pobl eraill. Trwy gymryd rhan weithredol mewn dadleuon a thrafodaethau anodd, mae pobl ifanc yn dysgu sut i lunio barn resymedig, parchu barn pobl eraill, ystyried safbwyntiau gwahanol a datrys achosion o wrthdaro. Mae'r sgiliau hyn yn eu galluogi i feithrin hyder a chydnerthedd i reoli achosion o wrthdaro sy'n codi mewn ymateb i faterion byd-eang ac yn eu bywydau eu hunain, boed hynny ar y maes chwarae, yn y cartref, neu yn eu cymuned leol.[6]

Maent yn effeithio ar fywydau pobl ifanc

Mae anwybyddu pynciau llosg yn gyfystyr ag anwybyddu'r gwirioneddau ym mywydau llawer o bobl ifanc. Gall pobl ifanc yn ein hystafelloedd dosbarth deimlo fel pe baent yn cael eu gwthio i'r cyrion am nifer o resymau, gan gynnwys: tlodi, ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, anabledd a grŵp cymdeithasol. Mae llawer o bobl ifanc yn debygol o brofi effeithiau pynciau llosg yn eu bywydau a'u cymunedau eu hunain, beth bynnag fo'u hoedran, ac o gael eu hamlygu i faterion cenedlaethol a byd-eang trwy'r cyfryngau. Mae gwaith ymchwil diweddar gan Childline yn awgrymu bod y cynnydd blynyddol o 35% yn nifer y plant sy'n ceisio help am bryder yn ymwneud, yn rhannol, â phryderon cynyddol am faterion byd-eang a welwyd ar y cyfryngau cymdeithasol.[7] Gall plant o dan bum mlwydd oed, hyd yn oed, glywed am ddigwyddiadau cymhleth a gofidus, a hynny gartref neu ar y maes chwarae. Mae darparu man diogel a chefnogol i bobl ifanc brosesu'r rhain yn dasg bwysig i ysgolion. Mae'r perygl o beidio â darparu man diogel i bobl ifanc drafod materion y maent yn pryderu amdanynt yn golygu eu bod yn wynebu mwy o berygl o gael eu hynysu, yn ogystal â bod yn agored i wybodaeth a allai, yn syml, fod yn anghywir neu atgyfnerthu naratif penodol.

Mae pobl ifanc eisiau gwybod mwy am bynciau llosg byd-eang

Mae llawer o bobl ifanc eisiau gwybod mwy am eu byd a'r camau y gallant eu cymryd i'w wneud yn lle gwell. Mae'n gyffredin i bobl ifanc feddu ar safbwynt rhyngwladol ac ystyried eu hunain yn ddinasyddion byd-eang.[8] Daeth astudiaeth gan Think Global i'r casgliad bod pobl ifanc yn awyddus iawn i fynd i'r afael â phynciau llosg, gan gynnwys gwahaniaethu, a bod llawer ohonynt o'r farn bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth "ddod â chymdeithas ynghyd", ond nad ydynt yn siŵr sut i weithredu.[9] Gall addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang rymuso pobl ifanc, gan eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i feithrin cydlyniant cymdeithasol a mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol yn eu cymunedau.

Mae pobl ifanc yn gofyn cwestiynau am eu lle yn y byd ac yn gwneud cysylltiadau rhwng eu bywydau nhw eu hunain a bywydau pobl y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Nid yw hyn yn syndod o gofio mai hon yw'r genhedlaeth fwyaf cysylltiedig mewn hanes, a hynny yn sgil globaleiddio cynyddol o ran y cyfryngau, masnach, cyfathrebu a theithio. Yn yr oes hon o gyfryngau, gwybodaeth a delweddau digidol byd-eang am ddigwyddiadau dadleuol y byd, mae gan athrawon rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol ymhlith pobl ifanc o ran y modd y gall y cyfryngau ddylanwadu ar eu darlun o leoedd a digwyddiadau yn y byd.

Gall pynciau llosg helpu i ddatblygu sgiliau meddwl

Gallai defnyddio deunydd sy'n heriol ac sy'n ysgogi pobl ifanc i drafod materion emosiynol eu hannog i ddatblygu'r sgiliau meddwl canlynol:

- **Prosesu gwybodaeth:** casglu, didoli, dosbarthu, trefnu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth; a gwneud cysylltiadau rhwng darnau gwahanol o wybodaeth.
- **Rhesymu:** cyfiawnhau barn a chamau gweithredu; dod i gasgliadau a gwneud didyniadau; defnyddio iaith briodol i egluro eu safbwyntiau; a defnyddio tystiolaeth i gefnogi eu penderfyniadau.
- **Ymholiad:** gofyn cwestiynau perthnasol; cynllunio beth i'w wneud a sut i ymchwilio; rhagfynegi canlyniadau a rhagweld ymatebion; archwilio damcaniaethau a phroblemau; profi casgliadau; a mireinio syniadau a barn.
- **Meddwl yn greadigol:** llunio ac ehangu syniadau; awgrymu damcaniaethau posibl; defnyddio eu dychymyg; a chwilio am ganlyniadau amgen.
- **Gwerthuso:** gwerthuso'r hyn y maent yn ei ddarllen, yn ei glywed ac yn ei wneud er mwyn barnu gwerth eu gwaith neu eu syniadau eu hunain, neu rai pobl eraill; meddu ar y gallu i beidio â derbyn yr holl wybodaeth yn ddi-gwestiwn; a bod yn hyderus o ran eu barn eu hunain.

Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i gefnogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar a chyfrifol, ond mae gan sgiliau hefyd rôl glir i'w chwarae wrth gefnogi llythrennedd a chyrhaeddiad academaidd.

YMDRIN Â'R CYFRYNGAU A "NEWYDDION FFUG"

Wrth addysgu pynciau llosg, mae angen i ni annog pobl ifanc i ymdrin yn feirniadol â'r cyfryngau, gan ystyried y modd y maent yn dylanwadu ar eu syniadau a'u ffordd o feddwl, yn ogystal â siapio eu gwerthoedd a'u hagweddau.

Erbyn heddiw, mae gan lawer o bobl ifanc fynediad 24/7, o bosibl, at newyddion a golygfeydd byd-eang ledled amrywiaeth o lwyfannau ar-lein. Mae plant ifanc iawn, hyd yn oed, yn agored i'r cyfryngau ac yn gallu cyrchu cynnwys ar-lein. Mae llywio'r ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, sy'n hygyrch iawn, yn gallu creu heriau newydd ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid.

Mae "newyddion ffug" yn her sylweddol gan ei bod yn fwyfwy anodd canfod ffynhonnell wreiddiol yr wybodaeth, yn enwedig os caiff ei chyrchu ar-lein. Mae hyd yn oed yn fwy anodd gwahaniaethu rhwng ffeithiau sydd wedi cael eu dilysu ac anwireddau neu "ffeithiau amgen". Mae pobl ifanc eu hunain yn cydnabod pwysigrwydd addysg o ran deall newyddion ffug a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol.[10] Fodd bynnag, gallant ei chael yn anodd ymdrin yn feirniadol â'r cynnwys y maent yn ei gael, gan dybio'n aml bod y newyddion sy'n ymddangos yn eu ffrwd newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod o ffynonellau dibynadwy.[11] Hefyd, mae yna berygl y gallai pobl ifanc ymddieithrio oddi wrth newyddion dilys am eu bod yn dechrau ystyried yr holl gynnwys yn "ffug". Mae'r materion hyn yn pwysleisio'r angen i fynd i'r afael â'r modd y dylid gwerthuso cynnwys y cyfryngau gyda phobl ifanc, ac yn codi pwyntiau i'w trafod ynglŷn â phwysigrwydd ffeithiau.

Er bod yna heriau o ran y modd y mae pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gallant hefyd fod yn arf i athrawon a phobl ifanc wella eu hymwneud â dinasyddiaeth weithgar. Gall pobl ifanc ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymdrin â'r materion y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt ac i rannu eu syniadau eu hunain. Yn aml, maent yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau digidol i ddylanwadu ar newid, ac mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol iddynt leisio eu barn am faterion cymdeithasol y dydd.[12]

FFACTORAU Y DYLAI POBL IFANC EU HYSTYRIED WRTH GYRCHU CYNNWYS AR Y CYFRYNGAU

- Er mwyn denu cynulleidfaoedd, bydd cwmnïau'r cyfryngau yn aml yn canolbwyntio ar straeon am drychinebau a phroblemau yn hytrach na newyddion "da", sy'n tueddu i fod yn llai chwilfrydig. Gallai hyn arwain at stereoteipio pobl a lleoedd.
- Yn aml, mae sefydliadau fel Oxfam yn cyflwyno safbwynt gwahanol i'r hyn a gyflwynir yn y cyfryngau prif ffrwd, a hynny trwy geisio adrodd stori fwy hirdymor am gydnerthedd y goroeswyr. Wedi dweud hynny, yn debyg i unrhyw ffynhonnell arall, mae gan Oxfam ei duedd ei hun. Mae angen i bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau i werthuso ffynonellau gwybodaeth yn feirniadol, gan ofyn cwestiynau tebyg i: "Pwy ysgrifennodd hyn?", "Pam?" a "Phryd?".
- Mae rheoliadau a chyfrifoldebau'r cyfryngau yn amrywio'n fawr rhwng gwledydd, a hyd yn oed rhwng y math o gyfryngau. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig, mae gan y cyfryngau darlledu gyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus, a orfodir gan gyrff perthnasol, tra bo'r wasg argraffedig yn hunanreoleiddiol. Felly, er bod newyddion ar-lein o ffynonellau gwahanol yn gallu edrych yn debyg, gall fod yn destun rheolau a rheoliadau cwbl wahanol. Mae dysgu'r gallu i ganfod tarddiad y stori newyddion, ynghyd â'r cyd-destun, yn gallu helpu pobl ifanc i farnu dibynadwyedd y stori honno.
- Efallai y bydd gan gwmnïau newyddion, yn union fel busnesau eraill, farn benodol y maent yn dymuno ei hyrwyddo, a hynny o bosibl er budd eu perchenogion, eu rhanddeiliaid neu eu cynulleidfaoedd. Gall cwmnïau'r cyfryngau ymddangos yn annibynnol ar ei gilydd gan ddenu cynulleidfaoedd gwahanol, ond maent yn aml yn perthyn i grŵp cyfryngau mawr sy'n berchen ar gyhoeddiadau eraill, neu sy'n eiddo i gwmni rhyngwladol mawr. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig, dim ond tri chwmni sy'n rheoli 71% o gylchrediad papur newydd cenedlaethol y Deyrnas Unedig.[13] Gall hyn olygu nad yw cynulleidfaoedd yn gweld ystod amrywiol o safbwyntiau a gwybodaeth.
- Tuedd pobl ifanc eu hunain. Wrth gael newyddion, mae angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'r tueddiadau sydd gan bob un ohonom sy'n effeithio ar y modd yr ydym yn ymdrin â'r cyfryngau, yn ogystal â dysgu sgiliau meddwl beirniadol er mwyn gwerthuso cynnwys yn wrthrychol.
- Mae gweithgarwch ar-lein, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, yn llunio ôl troed digidol y defnyddiwr. Gall sefydliadau gael mynediad at y data hyn i gael cipolwg ar ddewisiadau neu farn gymdeithasol a gwleidyddol y defnyddiwr. Gellir prynu'r data hefyd a'u gwerthu ymysg sefydliadau. Yna, byddant yn cael eu defnyddio'n weithredol i dargedu cynnwys penodol at ddefnyddwyr. Mae algorithmau yn pennu'r cynnwys ar ffrydiau newyddion y cyfryngau cymdeithasol a'r peiriannau chwilio. Golyga hyn fod ffrydiau newyddion a chanlyniadau chwilio yn cael eu haddasu yn seiliedig ar ymddygiad blaenorol a'r cynnwys y mae unigolion yn ymdrin ag ef, a gall hynny, yn ei dro, greu siambrau atsain lle mae safbwyntiau ac ymddygiadau presennol yn cael eu hatgyfnerthu yn hytrach na'u herio.

PAM DEFNYDDIO DULL ADDYSG AR GYFER DINASYDDIAETH FYD-EANG?

Weithiau, bydd digwyddiadau yn y newyddion mor arwyddocaol hyd nes y byddant yn effeithio ar bobl ifanc, neu, o leiaf, yn ennyn eu chwilfrydedd. Os nad oes "traddodiad" o ymdrin â materion byd-eang yn yr ystafell ddosbarth trwy'r cwricwlwm, neu mewn ffyrdd eraill, gallai delio â'r digwyddiadau hyn fod yn heriol i athrawon a phobl ifanc.

Felly, mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnig dull sefydledig sy'n helpu i ddatblygu diwylliant yn yr ystafell ddosbarth, lle gellir mynd i'r afael â phynciau llosg parhaus neu rai annisgwyl ac ynysig. Mae'n fframwaith i alluogi dysgwyr i ymdrin yn feirniadol ac yn weithredol â heriau a chyfleoedd bywyd mewn byd rhyngddibynnol ac sy'n newid yn gyflym.[14]

Mae plant ifanc iawn hyd yn oed yn dod wyneb yn wyneb â phynciau llosg ein hoes, a hynny trwy'r cyfryngau a thechnoleg gyfathrebu fodern. Yn hytrach na hyrwyddo un set o atebion, mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn annog pobl ifanc i archwilio, datblygu a mynegi eu gwerthoedd a'u barn eu hunain, gan wrando ar safbwyntiau pobl eraill, a'u parchu. Mae hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau bod pobl ifanc yn gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch y modd y maent yn arfer eu hawliau eu hunain, yn ogystal â'u cyfrifoldebau i bobl eraill.

Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn defnyddio myrdd o ddulliau dysgu ac addysgu cyfranogol, gan gynnwys trafodaeth a dadl, chwarae rôl, ymarferion graddio a chymunedau ymholi. Mae'r rhain yn cynnig ffyrdd da o addysgu pynciau llosg am eu bod yn galluogi pobl ifanc i amsugno gwybodaeth newydd, barnu tuedd a dibynadwyedd, dadansoddi, cyfuno, gwneud penderfyniadau gwybodus a chymryd camau ystyriol mewn perthynas â'r materion sy'n bwysig iddynt.

Mae llawer o bynciau llosg yn perthyn i feysydd allweddol gwybodaeth a dealltwriaeth o ran addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Yn yr un modd, mae sgiliau, gwerthoedd ac agweddau addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn cefnogi dysgwyr i drafod materion emosiynol, a llunio barn resymedig yn eu cylch. Trwy roi'r offer i bobl ifanc ddod yn ddinasyddion byd-eang, gallant hefyd gael eu cefnogi i ymdrin yn effeithiol â phynciau llosg.

YR ELFENNAU ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGU DINASYDDIAETH FYD-EANG WEITHGAR A CHYFRIFOL[15]

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl yn feirniadol ac yn greadigol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Gwerthfawrogi amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Weithiau, mae athrawon yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol dechrau gyda materion sy'n sbarduno anghytundeb, dadl neu safbwyntiau gwahanol, ac sydd hefyd yn ymwneud â chyd-destun y mae pawb yn gyfarwydd ac yn gyfforddus ag ef. Er bod addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnig gweithgareddau a dulliau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r sail untro hon, nid yw addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn faes pwnc ychwanegol, ond, yn hytrach, mae'n ddull cyffredin o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae ymgorffori'r dulliau hyn yn rhan o ymarfer rheolaidd yn golygu y bydd athrawon yn barod i fynd i'r afael â materion mwy cymhleth a heriol wrth iddynt godi, a hynny gan y bydd y bobl ifanc wedi datblygu eu gallu i fynd i'r afael â phynciau llosg mewn ffyrdd ystyrlon a phriodol.

CANLLAWIAU AR GYFER YMDRIN Â PHYNCIAU LLOSG YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Nod Deddf Addysg 1996 (Lloegr) yw sicrhau nad yw pobl ifanc yn clywed un ochr y ddadl yn unig gan eu hathrawon, a hynny mewn perthynas â phwnc llosg neu wleidyddol. Mae'n ofynnol i addysgwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod safbwyntiau gwrthwynebol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gytbwys pan fydd pynciau llosg neu wleidyddol yn ennyn sylw pobl ifanc. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'n glir y dylid trin pobl yn deg a heb wahaniaethu.[16] Felly, er bod y canllaw hwn yn hyrwyddo pwysigrwydd addysgu pynciau llosg gyda chymaint o ryddid mynegiant â phosibl, mae angen i addysgwyr fod yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt nodi'n glir pan fo unrhyw safbwyntiau a fynegir yn mynd yn groes i hawliau dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb.[17] Mae angen i athrawon weithredu mewn man diogel rhwng y ddau baramedr hyn.

Mae'r gwerth yn ymwneud â chynnig cyfleoedd i bobl ifanc feddwl yn feirniadol a threiddio'n ddyfnach i'r broses o archwilio gwerthoedd ac agweddau at faterion heriol, a hynny gan ystyried pobl eraill, a'u parchu.

Nid oes disgwyl i athrawon "wybod yr atebion" pan fyddant yn mynd i'r afael â phynciau llosg yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n gwbl ddilys i'r trafodaethau hyn godi mwy o gwestiynau nag atebion. Mae'r gwerth yn ymwneud â chynnig cyfleoedd i bobl ifanc feddwl yn feirniadol a threiddio'n ddyfnach i'r broses o archwilio gwerthoedd ac agweddau at faterion heriol, a hynny gan ystyried pobl eraill, a'u parchu.

Cyd-destun ehangach yr ysgol

Wrth drafod pynciau llosg, bydd pobl ifanc yn defnyddio eu profiadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Efallai y bydd ganddynt safbwyntiau penodol yn seiliedig ar eu gwerthoedd diwylliannol neu grefyddol sy'n deillio o'u bywyd gartref, yn y gymuned leol, ac o'u profiadau personol. Weithiau, gallai'r gwerthoedd hyn wrthdaro â hawliau dynol a chydraddoldeb, ac felly mae dyletswydd ar yr ysgol i nodi hyn yn glir.[18] Felly, mae'n ddefnyddiol i'r ysgol feithrin perthnasau agored â'r rhieni ynghylch pwysigrwydd annog pobl ifanc i drafod pynciau llosg (mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran). Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion cynradd lle nad yw rhieni, o bosibl, yn credu y dylai pobl ifanc ymwneud â materion anghyfforddus neu gymhleth. Bydd mabwysiadu deialog agored â rhieni ynghylch gwerth trafod pynciau llosg, ynghyd â pholisi ysgol clir, yn galluogi athrawon i fynd i'r afael â'r materion hyn yn unol â fframwaith ysgol priodol.

Mae annog y gwaith o ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â mannau diogel a thrafod pynciau llosg yn rhoi cymorth a hyder i athrawon yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal ag yng nghymuned ehangach yr ysgol. Mae natur y broses o drafod pynciau llosg yn golygu bod y potensial am bryderon ynghylch diogelu yn uwch. Felly, dylai athrawon fod yn ymwybodol o bolisi diogelu'r ysgol a cheisio cymorth gan yr uwch-reolwyr, lle bo hynny'n briodol.

Rôl yr athro/hwylusydd

Ar adegau, gall pynciau llosg herio'r modd y mae athrawon eu hunain yn meddwl, ond law yn llaw ag arweiniad a hyfforddiant da, gall addysgwyr feddu ar yr hyder i ymdrin ag eiliadau o ansicrwydd yn ystod y drafodaeth. Gall athrawon gefnogi pobl ifanc i gydnabod bod rhai materion yn gymhleth, hyd yn oed i oedolion, a bod angen i bob un ohonom neilltuo amser i feddwl ac ymateb yn feddylgar. Mae angen i athrawon ddod o hyd i ddulliau sy'n diwallu'r angen am gydbwysedd a gwrthrychedd, gan osgoi tuedd. Gellir dewis dulliau gwahanol yn unol â hyder a phrofiad, yn ogystal ag aeddfedrwydd a sgiliau grwpiau penodol o bobl ifanc.

Mae gan yr athro rôl ganolog i'w chwarae wrth drafod pynciau llosg, ac mae'n bwysig ei fod yn barnu pryd a sut i fynegi safbwyntiau personol, os o gwbl. Gall yr addysgwr ddewis chwe rôl bosibl wrth ymdrin â sgyrsiau anodd yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig bod yn hyblyg wrth ddewis pa ddull i'w ddefnyddio, yn ogystal â bod yn glir ynghylch pam y mae dull arbennig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer achlysur penodol. Gallai unrhyw rai o'r rolau hyn fod yn briodol gan ddibynnu ar ffactorau tebyg i'r pwnc, oedran y bobl ifanc ac unrhyw waith dysgu neu gwricwlaidd a wnaed yn flaenorol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol trafod y rolau â'r grŵp, neu wahodd pobl ifanc i ymgymryd ag un neu fwy o'r rolau hyn eu hunain.

Dyma'r chwe rôl:

1. Ymrwymedig Mae'r athro'n rhydd i rannu ei farn ei hun er mwyn i bobl ifanc ei herio, gan nodi'n glir y gallai'r rôl hon arwain at drafodaeth sy'n cynnwys tuedd.

2. Gwrthrychol neu Academaidd Mae'r athro'n esbonio pob safbwynt posibl heb ddatgan ei safbwynt ei hun.

3. Dadleuydd y Diafol Mae'r athro'n mabwysiadu safbwynt arall yn fwriadol, ni waeth beth yw ei safbwynt ei hun. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â phob safbwynt, gan herio credoau presennol.

4. Eiriolwr Mae'r athro'n cyflwyno pob safbwynt sydd ar gael cyn cloi gyda'i safbwynt ei hun, gan nodi ei resymau.

5. Cadeirydd Diduedd Mae'r athro'n sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei gynrychioli trwy ddatganiadau'r bobl ifanc neu ffynonellau cyhoeddedig. Mae'r athro'n hwyluso'r drafodaeth, ond nid yw'n datgan ei safbwynt ei hun.

6. Diddordeb Datganedig Mae'r athro'n datgan ei safbwynt ei hun er mwyn i'r bobl ifanc farnu ei duedd yn ddiweddarach, ac yna mae'n cyflwyno pob safbwynt mor wrthrychol â phosibl.

Dulliau addysgu a'u manteision

Mae pynciau llosg yn cyffwrdd â safbwyntiau dyfnion ac agweddau sydd wedi cael eu hymgorffori, ac felly nid dulliau didactig yw'r rhai mwyaf addas i ymdrin â dadleuon. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dweud wrth bobl ifanc beth i'w feddwl neu bregethu wrthynt ynghylch sut i ymddwyn yn debygol, ar y gorau, o beidio â chael unrhyw effaith arnynt o gwbl, ac, ar y gwaethaf, o gyfyngu ar eu gallu i feddwl ac ystyried safbwyntiau gwahanol. Mae annog dull cyfranogol yn yr ystafell ddosbarth yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. Mae rhai o'r meysydd a allai elwa ar ddulliau mwy gweithredol yn cynnwys: llafaredd, llythrennedd emosiynol, sgiliau rhyngbersonol neu gymdeithasol, sgiliau meddwl yn feirniadol, sgiliau dinasyddiaeth, sgiliau llythrennedd, neu gyfuniadau o'r rhain.

Bydd methodolegau gwahanol yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau, gwerthoedd ac agweddau gwahanol. Yn ychwanegol at ddulliau cyfarwydd, er enghraifft dadl, drama, chwarae rôl ac efelychu, mae dulliau effeithiol, arloesol eraill, ynghyd â'u manteision, yn cynnwys:

- **Gwneud cysylltiadau** Gellir meithrin y gallu i ddadlau'n rhesymegol a threfnu syniadau trwy weithgareddau tebyg i "Dirgelion", "Graddio Diemwnt" a'r "Olwyn canlyniadau", gan ei bod yn ofynnol i bobl ifanc ddidoli, trefnu a dadansoddi llawer iawn o wybodaeth.
- **Gofyn cwestiynau** Mae hyn yn sail dda i annog trafodaeth grŵp oherwydd gall pobl ifanc, sydd â lefelau gwahanol o wybodaeth am bwnc, ymateb i'r un deunydd ysgogi. Mae delweddau holi yn helpu pobl ifanc i ymchwilio i deimladau personol gwahanol, yn ogystal ag i ymatebion gwleidyddol o bob cwr o'r byd. Maent yn eu hannog i archwilio tuedd a meithrin sgiliau dadansoddi, ymholi a'r gallu i feddwl yn feirniadol. Mae gweithgareddau tebyg i "Cadwyni Pam, Pam, Pam?" neu "Coed Problemau" yn helpu pobl ifanc i ddeall materion yn well.
- Mae archwilio safbwyntiau a gwerthoedd yn ffordd o annog dysgwr i ystyried ei safbwynt ei hun, ynghyd â safbwyntiau gwrthwynebol am fater. Gall pobl ifanc archwilio eu gwerthoedd eu hunain gan ddefnyddio'r "Continwwm barn" neu'r "Gweithgaredd lein ddillad", sy'n eu galluogi i addasu eu safbwynt yn dibynnu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu gan bobl eraill.

I gael rhagor o wybodaeth am y dulliau hyn a dulliau dysgu cyfranogol eraill, gweler *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i Athrawon.*[19]

Athroniaeth i Blant (P4C)

Mae'r dull hwn yn cynnig fframwaith delfrydol ar gyfer addysgu pynciau llosg. Mae P4C yn golygu archwilio syniadau neu gysyniadau mawr. Mae'n galluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau gwrando a pharchu safbwyntiau pobl eraill. Maent yn cael eu hannog i wrando ar syniadau pobl eraill, myfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain, eu cyflwyno'n gyhoeddus, a'u newid mewn ymateb i'r hyn a glywant. Mae dulliau o'r fath yn fwy penagored ac yn galluogi trafodaeth i ddatblygu, sy'n aml yn ennyn diddordeb pobl ifanc ar lefel ddyfnach.

Dangosodd gwaith ymchwil, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol yn 2015, fod P4C wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad plant rhwng 7 ac 11 mlwydd oed, yn enwedig pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig. Awgrymodd yr adborth gan athrawon fod P4C hefyd wedi cael effaith fuddiol ar ganlyniadau ehangach, er enghraifft hyder, amynedd a hunan-barch.[20] Mae rôl yr athro fel hwylusydd yn hanfodol wrth ddatblygu "Cymuned Ymholi", gan sicrhau deialog a chynnydd o safon, yn ogystal ag integreiddio o fewn y cwricwlwm.[21] Gweler Gweithgaredd 7 ar dudalen 16 am enghraifft o sesiwn P4C nodweddiadol.

CREU MAN DIOGEL I GYNNAL SGYRSIAU

Mae sicrhau bod ystafelloedd dosbarth yn fannau diogel i bobl ifanc archwilio eu ffyrdd o feddwl yn allweddol ar gyfer llwyddiant y dull hwn. Mae hyn yn golygu darparu gofod sy'n gydweithredol, yn barchus ac sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu deialog agored lle gall pobl ifanc brofi eu safbwyntiau mewn fforwm agored ar gyfer trafodaeth feirniadol, fanwl a pharchus.[22]

Yn ddelfrydol, dylid cynllunio ac ystyried pwnc heriol yn ofalus wrth ei gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth. Gan fod llawer o alwadau ar amser y cwricwlwm, efallai y byddai'n ddefnyddiol creu cyfleoedd i drafod materion heriol mewn sefyllfaoedd tebyg i wasanaethau, amser cylch neu drafodaethau gan y cyngor ysgol. Fodd bynnag, efallai y bydd dadleuon yn codi'n annisgwyl yn y coridor neu ar y maes chwarae, a bydd angen i addysgwyr fod yn barod ar gyfer hyn hefyd.

Ar yr un pryd â chydnabod manteision archwilio pynciau llosg yn yr ystafell ddosbarth, mae angen sgiliau addysgu penodol i osgoi atgyfnerthu stereoteipiau, dwysáu tensiynau rhwng pobl ifanc, neu gynyddu dryswch. Bydd adnabod y bobl ifanc a chyd-destun eu bywydau yn yr ystafell ddosbarth, a'r tu allan iddi, yn helpu i lunio barn. Efallai y bydd angen ceisio cymorth gan gyd-weithwyr sydd â phrofiad o drafod pynciau penodol, neu'r rheiny sy'n deall materion yn y gymuned leol yn dda.

Yn yr ystafell ddosbarth, efallai y bydd mater sensitif yn effeithio'n bersonol ar unigolyn ifanc, er enghraifft tlodi, gwrthdaro neu ymfudo. Cyn cynnal y sesiwn a gynlluniwyd, mae'n werth gwirio a yw'r unigolyn hwnnw'n fodlon trafod y mater, neu roi'r dewis iddo adael yr ystafell, os oes angen. Efallai y bydd yn briodol rhoi cyfle i'r unigolyn ifanc drafod y mater ymhellach â chyd-weithiwr profiadol.

Mae'n bwysig ystyried y cysyniad o gydbwyso hawliau. Efallai y bydd un unigolyn ifanc yn mynegi safbwyntiau a fydd yn amharu ar hawl unigolyn arall i deimlo'n ddiogel yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig gosod y ffiniau ar gyfer trafodaeth gynhwysol lle gall pob unigolyn ifanc gymryd rhan. Gellir cyflawni hyn trwy osod rheolau sylfaenol.

Mae sicrhau bod ystafelloedd dosbarth yn fannau diogel i bobl ifanc archwilio eu ffyrdd o feddwl yn allweddol ar gyfer llwyddiant y dull hwn.

Y Rheolau sylfaenol

Cyn bwrw ati â'r gweithgaredd a ddewiswyd, mae'n bwysig gosod rheolau sylfaenol er mwyn sicrhau bod yna amgylchedd diogel i'r bobl ifanc fynegi eu barn.

Gallai'r rheolau sylfaenol hyn gynnwys:

- Caniatáu i un unigolyn siarad ar y tro – heb ymyrraeth.
- Dangos parch at safbwyntiau pobl eraill.
- Herio'r syniadau, nid y bobl.
- Defnyddio iaith addas – dim sylwadau sarhaus.
- Caniatáu i bawb fynegi eu barn er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu clywed a'u parchu.
- Gwahodd pobl ifanc i roi rhesymau pam y mae ganddynt farn benodol.

Gan ddibynnu ar sensitifrwydd y mater, efallai y bydd yn briodol rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai yn unol â rhywedd neu brofiadau. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gyfrinachedd, ac yn galluogi'r bobl ifanc sy'n llai hyderus i fynegi eu barn mewn amgylchedd sydd â llai o bwysau. Byddai annog y grŵp i lunio eu rheolau sylfaenol eu hunain ar ddechrau'r drafodaeth yn ffordd hynod effeithiol o ennyn perchenogaeth dros y drafodaeth neu'r gweithgaredd. Yna, gall y grŵp reoleiddio ei broses ddysgu ei hun.

GWEITHGAREDDAU

Mae'r gweithgareddau canlynol yn amlygu'r modd y gellir ymgorffori pynciau llosg yn rhan o sesiynau ar gyfer pobl ifanc o bob oedran ledled y cwricwlwm, gan gefnogi'r dysgwyr i ddatblygu rhai o elfennau allweddol addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Ym mhob achos, efallai y byddwch yn gweld bod amser cylch cyffredinol neu weithgareddau cynhesu siarad a gwrando yn ddefnyddiol wrth greu'r gofod cywir i'r ddysgwyr archwilio pynciau llosg.

Gweithgaredd 1 – Amrywiaeth

Fi fy hun (Y Blynyddoedd Cynnar)

Nod: Bydd y dysgwyr yn dod yn ymwybodol o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl; yn gwella eu sgiliau gwrando; ac yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth. Mae'r gweithgaredd hwn wedi cael ei addasu o *Developing Circle Time* gan Teresa Bliss, George Robinson a Barbara Maines.[23]

Yn rhan o amser rhannu neu amser cylch, neu mewn grwpiau bach, awgrymwch ran gyntaf un o'r brawddegau canlynol, gan wahodd pob dysgwr i'w chwblhau:

- "Rydw i'n arbennig oherwydd ..."
- "Rydw i wir yn hoffi ..."
- "Roeddwn i'n ddewr pan ..."
- "Rydw i'n teimlo'n hapus/drist/grac/ddigalon pan ..."

Llun: Aubrey Wade/Oxfam

Mae delweddau tebyg i'r llun hwn o ddillad yn sychu ar ffens mewn gwersyll ffoaduriaid yng Ngwlad Groeg yn werthfawr i ysgogi trafodaeth a meithrin sgiliau meddwl yn feirniadol.

Gweithgaredd 2 – Gwrthdaro

Pam yr ydym yn ymladd? (5-7 mlwydd oed)

Nod: Bydd y dysgwyr yn dirnad rhai o achosion gwrthdaro ac yn dechrau: datblygu strategaethau i ddatrys gwrthdaro; archwilio safbwyntiau gwahanol, nodi annhegwch a chymryd camau gweithredu priodol; cydymdeimlo ag anghenion pobl eraill ac ymateb iddynt; a datblygu ymwybyddiaeth bod yna ganlyniadau i'n gweithredoedd. Addaswyd o *Primary Values* gan Alison Montgomery ac Ursula Birthistle.[24]

1. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pam y mae pobl yn dadlau, er enghraifft dros eiddo, ffrindiau neu chwaraeon.
2. Trafodwch awgrymiadau'r dysgwyr a gofynnwch a oes rhai ohonynt wedi dadlau am yr un rhesymau neu am resymau tebyg. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sefyllfaoedd yn y cartref neu yn yr ysgol a allai arwain at wrthdaro.
3. Defnyddiwch syniadau'r dysgwyr fel senarios er mwyn chwarae rôl mewn grwpiau bach. Mae sefyllfaoedd posibl yn cynnwys: dadl dros wylio'r teledu, cwffio dros bêl neu lyfr, ffrae deuluol ynghylch amser gwely neu fynd allan i chwarae, neu gael eich cyhuddo ar gam heb gael y cyfle i esbonio.
4. Ar ôl i bob grŵp actio'r olygfa, ewch ati fel dosbarth i drafod yr awgrymiadau ar gyfer datrys y broblem. Nodwch fod annog y dysgwyr i chwarae rolau gwahanol y senarios yn eu tro yn ffordd effeithiol o feithrin empathi.

Gweithgaredd 3 – Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch

Capsiynau (7-11 mlwydd oed)

Nod: Trwy ddefnyddio ffotograffau fel deunydd ysgogi, mae'r gweithgaredd hwn yn annog y dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau meddwl yn feirniadol. Bydd y dysgwyr yn meithrin eu dealltwriaeth o natur rhagfarn, ynghyd â ffyrdd o fynd i'r afael â hi; yn canfod tuedd, barn a stereoteipiau; yn asesu safbwyntiau gwahanol; yn cydnabod ac yn dechrau herio annhegwch; ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfiawnder.

Adnoddau

- Cylchgronau a phapurau newydd, neu fynediad at lwyfannau cyfryngau ar-lein.
- Siswrn, glud a dalennau o bapur plaen.
- Rhai enghreifftiau o ffotograffau a chapsiynau sy'n hyrwyddo stereoteipiau, er enghraifft rolau rhywedd, safbwyntiau cyffredinoledig neu hiliol tebyg i "Mae Affrica yn ...", "Mae ceiswyr lloches yn ..."

Noder: Gallai fod yn ddefnyddiol treialu rhai capsiynau enghreifftiol gyda'r dosbarth cyn dechrau'r gweithgaredd hwn.

1. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis a thorri allan pum ffotograff o gylchgronau neu bapurau newydd (neu argraffu lluniau oddi ar y Rhyngrwyd) a gludo pob llun ar ddalen o bapur plaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu un capsiwn negyddol ac un capsiwn cadarnhaol ar gyfer pob un o'r delweddau.
2. Arddangoswch y gwaith o amgylch yr ystafell ddosbarth ac ewch ati i drafod effaith y capsiynau gwahanol ar ganfyddiadau'r dysgwyr o'r lleoliadau a'r bobl yn y ffotograffau.
3. Yna, fel dosbarth, trafodwch enghreifftiau o'r ffotograffau a'r capsiynau sy'n hyrwyddo stereoteipiau a safbwyntiau cyffredinoledig neu hiliol.
4. Anogwch y dysgwyr i gwestiynu'r capsiynau ac i ysgrifennu neu awgrymu rhai sy'n fwy addas. Er enghraifft, os yw'r capsiynau'n stereoteipio neu'n cyffredinoli, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gapsiynau eraill sy'n esbonio ym mha le, neu ymysg pa grŵp penodol o bobl, y mae rhywbeth wedi digwydd. Fel estyniad i'r gweithgaredd hwn, gallai'r dysgwyr ysgrifennu llythyrau at olygydd y papur newydd yn amlinellu eu pryderon am un o'r capsiynau.

Gweithgaredd 4 – Rhywedd

Herio canfyddiadau rhywedd (8-14 mlwydd oed). Addaswyd o'r prosiect *Gender Respect, DECSY*[25]

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y dysgwyr i feddwl yn feirniadol am rywedd ac i fyfyrio ar sut a pham y mae stereoteipiau prif ffrwd yn bodoli. Mae'n fan cychwyn ar gyfer trafodaeth ehangach ynghylch stereoteipiau rhywedd.

Adnoddau
- Copïau o'r rhestrau termau a ddarperir isod.
- Dalennau mawr o bapur plaen.

1. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri, a rhowch ddalen o bapur i bob grŵp, ynghyd â chopi o un o'r rhestrau geiriau: **Ansoddeiriau, Swyddi** *neu* **Rolau Domestig.** Gellir addasu'r swyddi hyn yn ôl oedran.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio diagram Venn mawr ar eu taflen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr dorri allan a gosod y geiriau/datganiadau ar y diagram Venn i ddangos a ydynt yn eu hystyried yn **Fenywaidd,** yn **Wrywaidd** neu **Heb fod yn perthyn i Rywedd penodol.** Gallent ychwanegu eu henghreifftiau eu hunain o ansoddeiriau, swyddi a rolau domestig. Gallai'r athrawon ofyn i'r dysgwyr ystyried hyn o safbwynt y gymdeithas yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar safbwyntiau personol. Er bod y norm arferol yn priodoli rhywedd i'r rolau a'r nodweddion hyn, efallai y bydd y dysgwyr yn cydnabod hynny ond yn gwybod am lawer o enghreifftiau i'r gwrthwyneb. Efallai y bydd yr addysgwyr hefyd am archwilio natur ddeuaidd y gweithgaredd hwn yng ngoleuni LGBT+.
3. Gwahoddwch y dysgwyr i rannu a thrafod y modd y maent wedi dosbarthu'r cyfan. **Sut yr oeddent wedi penderfynu? Pa fath o drafodaethau a gafwyd? Beth yw sail eu syniadau ynghylch sut i benderfynu?** Noder: Yn achos y rhestr o rolau domestig, mae'n debygol y bydd yr hyn y mae teuluoedd y dysgwyr yn ei wneud yn dylanwadu ar hyn. Gallai hyn beri sensitifrwydd, er enghraifft os yw dysgwr yn perthyn i deulu un rhiant neu os yw un o'r rhieni, neu'r ddau ohonynt, yn mynd allan i weithio.
4. Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn credu y byddai eu hatebion yn wahanol pe byddai'r gweithgaredd wedi cael ei wneud:
   - Yn ystod y cyfnod pan oedd eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau yn blant?
   - Gan blentyn ymhen 20 mlynedd?
   - Gan blentyn mewn gwlad arall?
   - Ym mha wledydd y mae'r dysgwyr yn credu y byddai pobl ifanc, o bosibl, yn rhoi atebion gwahanol?
5. Trafodwch a yw'r dysgwyr yn credu y dylid herio'r rolau rhywedd hyn: **A allant feddwl am enghreifftiau nad ydynt yn cydymffurfio â chategori rhyw benodol? Pa eiriau a allai fod yn niwtral o ran rhywedd? Pa eiriau a ddylai fod yn niwtral o ran rhywedd?**
6. Trafodwch yr hyn y mae'r gweithgaredd hwn wedi ei addysgu i'r dysgwyr ynghylch rolau rhywedd a'u canfyddiadau ohonynt: **Sut y mae rolau dynion a menywod yn newid, yn eu barn nhw? Pa newidiadau y byddai'r dysgwyr yn dymuno eu gweld?**

Ansoddeiriau	Swyddi	Rolau domestig
Cryf	Nyrs	Coginio
Gofalgar	Cogydd	Garddio
Caredig	Athro	Golchi llestri
Gwydn	Peilot	DIY
Meddylgar	Milwr	Siopa
Galluog	Gofalwr	Glanhau
Dewr	Pêl-droediwr	Talu'r biliau
Cas	Arlunydd	Smwddio
Hoffi chwaraeon	Meddyg	Trwsio problem dechnegol
Swnllyd	Diffoddwr Tân	Golchi dillad
Tawel	Pennaeth	Mynd â'r sbwriel allan
Mentrus	Dawnsiwr	Gofalu am blant
Cyfeillgar	Gweithiwr cymdeithasol	Glanhau'r car
Hyderus	Dyfeisiwr	Gwneud penderfyniadau

Gweithgaredd 5 – Datblygu cynaliadwy

Sesiwn cwestiynau lleol i fyd-eang (11-14 mlwydd oed)

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau dadansoddi a phrosesu gwybodaeth i archwilio effaith camau gweithredu lleol ar ddigwyddiadau byd-eang.

Adnoddau

- Llungopïau o erthygl mewn cylchgrawn, papur newydd neu ddarn oddi ar y Rhyngrwyd sy'n sôn am fater amgylcheddol, er enghraifft llifogydd.

1. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri, a rhowch gopi o un o'r erthyglau newyddion i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod ac ateb y cwestiynau canlynol yn eu grwpiau:
   - Sut y mae'r mater hwn yn effeithio ar bobl yn eich ardal leol?
   - Sut y mae'n effeithio ar bobl ledled y byd?
   - A yw'n effeithio'n wahanol ar fenywod a dynion?
   - A yw'n effeithio'n fwy ar bobl gyfoethocach neu bobl dlotach?
   - Sut y mae'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol?
   - Beth yw achosion y mater hwn?
   - A yw'r achosion yr un fath ar gyfer pobl o gwmpas y byd?
   - Beth yw'r atebion ar gyfer y mater hwn?
   - A yw'r atebion yr un fath ar gyfer pobl o gwmpas y byd?
   - Pan fydd rhywbeth yn digwydd mewn un rhan o'r byd, a yw'n effeithio ar bobl mewn rhannau eraill?
   - Sut y mae hwn yn fater byd-eang?
2. Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno ei syniadau i weddill y dosbarth. Yna, gall ei atebion fod yn sail i drafodaeth yn y dosbarth.

Llun: Eleanor Farmer / Oxfam

Gweithgaredd 6 – Straeon yn y cyfryngau a "Newyddion ffug"

Dadansoddi beirniadol (11-16 mlwydd oed). Addaswyd o *Schools for Future Youth*[26]

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y dysgwyr i ddadansoddi'r cyfryngau'n feirniadol ac i archwilio materion sy'n ymwneud â "newyddion ffug". Mae'r gweithgaredd holi isod yn galluogi pobl i feddwl yn feirniadol am fater. Gellir ei ddefnyddio gyda'r dysgwyr er mwyn gofyn chwe chwestiwn allweddol am unrhyw bwnc neu fater.

Adnoddau

- Ystod o ddeunydd gan y cyfryngau sy'n ymwneud â phwnc llosg neu stori newyddion. Gallai hyn gynnwys erthyglau newyddion, delweddau, deunydd oddi ar y cyfryngau cymdeithasol a chlipiau fideo ar-lein.

1. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Rhowch un o'r darnau o dystiolaeth i bob grŵp a gofynnwch i'r dysgwyr drafod ac ateb y cwestiynau canlynol:

Ffynhonnell

- Beth yw ffynhonnell yr erthygl/y ddelwedd/post/sylw/clip?
- Pa fath o sefydliad sydd wedi cyhoeddi'r uchod?
- Pwy sy'n berchen ar y sefydliad?
- Pwy yw'r gynulleidfa?
- A oes gan y sefydliad hwn unrhyw safbwyntiau/duedd penodol?
- A yw'r sefydliad yn atebol (i reolau a rheoliadau)?

Pwy?

- Pwy a oedd wedi dweud hyn?
- A yw'n rhywun yr ydych yn gallu ymddiried ynddo?
- Sut wyddoch chi eich bod yn gallu ymddiried ynddo?

Beth?

- Beth yr oedd wedi ei ddweud?
- Ai ffaith neu farn ydoedd?
- A oedd wedi hepgor unrhyw beth pwysig?

Ble?

- Ble yr oedd wedi ei ddweud?
- A oedd wedi ei ddweud yn gyhoeddus neu'n breifat?
- A oedd gan bobl yr hawl i fynegi barn wahanol?

Pam?

- Pam yr oedd wedi ei ddweud?
- A oedd yn ceisio annog pobl eraill i feddwl neu wneud rhywbeth?

Pryd?

- A oedd wedi ei ddweud mewn ymateb i ddigwyddiad blaenorol?
- A oedd wedi ei ddweud er mwyn dylanwadu ar ddigwyddiad diweddarach?

Sut?

- Sut yr oedd wedi ei ddweud?
- A oedd wedi defnyddio iaith a oedd yn cynnwys tuedd neu emosiwn?
- A oedd yr hyn a ddywedwyd yn cynnwys iaith ymfflamychol neu ddramatig?
- Os oeddech wedi gwylio fideo, a oedd y fideo yn cynnwys unrhyw gerddoriaeth neu effeithiau emosiynol?

2. Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno'r stori newyddion i weddill y dosbarth. Trafodwch a oes yna wahaniaethau rhwng y ffynonellau sy'n cyflwyno'r un stori. Gallai'r dysgwyr awgrymu enghreifftiau o achosion pan gyflwynwyd digwyddiad newyddion mewn ffordd wahanol, a hynny'n seiliedig ar enghreifftiau diweddar, er enghraifft yn ystod ymgyrch etholiadol neu yn dilyn trychineb naturiol.

3. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a yw eu safbwyntiau a'u barn ynghylch y pwnc llosg neu'r stori newyddion wedi newid o ganlyniad i feddwl yn fwy beirniadol.

Gweler y blwch ar dudalen 6 am y ffactorau y dylid eu hystyried pan fydd pobl ifanc yn cyrchu cynnwys oddi ar y cyfryngau.

Llun: Tommy Trenchard/Oxfam

Gweithgaredd 7 – Athroniaeth i Blant (P4C)

(Pob grŵp oedran)

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn datblygu cymuned ymholi trwy ddeialog o ansawdd mewn trafodaethau grŵp.

Crynodeb o'r modd y mae P4C yn gweithio mewn sesiwn arferol:

- Mae'r bobl ifanc yn cael eu haddysgu sut i lunio cwestiynau athronyddol ar ôl cael eu hysbrydoli gan ddeunydd "ysgogi", a allai gynnwys darn o destun, stori, ffilm neu weithgaredd.
- Yna, maent yn dewis cwestiwn ar y cyd i fod yn ganolbwynt ar gyfer yr ymholiad (deialog).
- Fel arfer, mae'r bobl ifanc yn eistedd mewn cylch ac mae'r athro, fel yr hwylusydd, yn eu galluogi i gynnal deialog o ansawdd trwy gyflwyno sgiliau ac iaith athronyddol.
- Mae'r hwylusydd hefyd yn cefnogi'r broses o feithrin sgiliau meddwl yn feirniadol, yn greadigol, yn ofalgar ac yn gydweithredol.
- Mae'r gymuned yn myfyrio ar yr ymholiad ac yn cynllunio'r modd y gellir ei wella erbyn y sesiwn nesaf.
- Bwriad P4C yw bod yn weithgaredd rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn meithrin eu sgiliau meddwl a rhesymu dros gyfnod o amser.

Gellir casglu deunydd ysgogi o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft llyfrau stori, ffotograffau neu gartwnau, sy'n briodol i oedran y bobl ifanc. Mae'r Athro Robert Fisher yn awgrymu rhai enghreifftiau o gwestiynau penagored ar gyfer hwyluswyr yn ei lyfr *Teaching Thinking*.[27]

1. Cwestiynau sy'n gofyn am eglurhad:	
• A allwch chi esbonio bod ... ?	Esbonio
• Beth ydych chi'n ei olygu ... ?	Diffinio
• A allwch chi roi enghraifft i mi o ... ?	Rhoi enghreifftiau
• Sut y mae hynny'n helpu ... ?	Cefnogi
• A oes gan rywun gwestiwn i'w ofyn ... ?	Ymholi
2. Cwestiynau sy'n procio rhesymau a thystiolaeth:	
• Pam ydych chi'n credu hynny ... ?	Llunio dadl
• Sut wyddoch chi hynny ... ?	Tybiaethau
• Beth yw eich rhesymau ... ?	Rhesymau
• A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ... ?	Tystiolaeth
• A allwch chi roi enghraifft/gwrthenghraifft i mi ... ?	Gwrthenghreifftiau
3. Cwestiynau sy'n archwilio safbwyntiau amgen:	
• A allwch chi ei fynegi mewn ffordd wahanol ... ?	Ailddatgan safbwynt
• A oes yna safbwynt arall ... ?	Myfyrio
• Beth pe bai rhywun arall yn awgrymu bod ... ?	Safbwyntiau amgen
• Beth fyddai rhywun sy'n anghytuno â chi yn ei ddweud ... ?	Gwrthddadleuon
• Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y safbwyntiau/syniadau hynny ... ?	Gwahaniaethau
4. Cwestiynau sy'n profi goblygiadau a chanlyniadau:	
• Beth sy'n dilyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud ... ?	Goblygiadau
• A yw'n unol â'r hyn a ddywedoch yn gynharach ... ?	Cysondeb
• Beth fyddai canlyniadau hynny ... ?	Canlyniadau
• A oes yna reol gyffredinol ar gyfer hynny ... ?	Rheolau cyffredinol
• Sut allech chi brofi a oedd hynny'n wir ai peidio ... ?	Profi'r gwirionedd
5. Cwestiynau am y cwestiwn/drafodaeth:	
• A oes gennych chi gwestiwn amdano ... ?	Holi
• Pa fath o gwestiwn ydyw ... ?	Dadansoddi
• Sut y mae'r hyn a ddywedwyd/y cwestiwn yn ein helpu ... ?	Cysylltu
• Pa mor bell ydym ni wedi cyrraedd/pwy sy'n gallu crynhoi'r broses hyd yma ... ?	Crynhoi
• A ydym yn nes at ateb y cwestiwn/y broblem ... ?	Dod i gasgliadau

Os ydych yn newydd i P4C, efallai yr hoffech gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg. Gweler **www.sapere.org.uk**

ATHRONIAETH I BLANT (P4C): ASTUDIAETH ACHOS

Mae Canolfan Addysg Fyd-eang Sir Gaerhirfryn (LGEC) wedi cynnal sesiynau gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio mewn ysgol uwchradd leol. Roedd y deunydd ysgogi a ddefnyddiwyd yn cynnwys stori go iawn am ffoadur, lle bu'n rhaid i'r unigolyn ifanc hwnnw ddianc o'i wlad enedigol ac ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig.

Dyma rai o'r cwestiynau a gododd:

- Pam y mae pobl yn lladd ceiswyr lloches?
- Pam y mae gan bobl fywydau dychrynllyd?
- Pam y mae pobl yn gas wrth ffoaduriaid?
- Beth sydd gan geiswyr lloches i'w wneud â mi?
- Pam y mae pobl yn gweithio'n anghyfreithlon?
- Pam y mae pobl yn byw mewn tlodi er eu bod yn gweithio?
- Pam y mae teuluoedd pobl yn cael eu harteithio?
- Sut fyddech chi'n teimlo pe byddech yn geisiwr lloches mewn gwlad arall?

Roedd y drafodaeth yn cynnwys y pwyntiau hyn:

- Mae dwy ochr i bob stori.
- Y rhesymau dros hynny – hiliaeth.
- Sut wyddoch chi fod rhywun yn ffoadur?
- Rhoi cyfle i bobl os nad ydych yn eu hadnabod.
- Pe byddem yn gas i bobl am eu bod yn wahanol, yna byddem yn gas i bawb.

Nododd gwerthusiad o'r prosiect fod y grŵp yn cynnwys y 'bwlis a'r rhai sy'n cael eu bwlio'. Er hyn, roeddent wedi dysgu sut i gydweithredu, llunio eu cwestiynau eu hunain i'w trafod, a gwrando ar farn ei gilydd. Roedd y prosiect wedi rhoi iddynt y sgiliau a'r hyder yr oedd arnynt eu hangen i brofi cynhwysiant yn hytrach na'r ymdeimlad o gael eu heithrio.

Llun: Eimear Hurley/Ysgol Uwchradd Woodside

Gweithgaredd 8 – Continwwm gwerthoedd

Cyfnewid safbwyntiau (11-16 mlwydd oed)

Nod: Bydd y gweithgaredd hwn yn ennyn trafodaeth am bwnc llosg, gan annog y dysgwyr i wrando ar farn pobl eraill a meithrin eu sgiliau rhesymu.	**Adnoddau** • Darnau bach o bapur neu gerdyn, un i bob dysgwr.

1. Darllenwch y datganiad canlynol i'r dosbarth: "Nid yw trais byth yn cael ei gyfiawnhau mewn protestiadau, naill ai gan y protestwyr neu gan yr heddlu".
2. Gofynnwch i'r dysgwyr benderfynu ar eu safbwynt ar gyfer y datganiad hwn a'i ysgrifennu ar eu darn o bapur. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr bennu gradd rhwng un a phump ar ei gyfer, gydag un yn golygu "anghytuno'n gryf" a phump yn golygu "cytuno'n gryf".
3. Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i rywun sy'n rhannu eu safbwynt a thrafod y datganiad am dair munud. Os bydd y dysgwyr yn newid eu meddwl ar unrhyw adeg, gallant ysgrifennu eu safbwynt newydd ar eu darn o bapur.
4. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr symud ymlaen i ddod o hyd i rywun sy'n meddu ar safbwynt sydd un cam i ffwrdd o'u safbwynt eu hunain, a thrafod y datganiad, cyn dod o hyd i rywun sy'n meddu ar farn gwbl wahanol.
5. Yn olaf, dewch ynghyd fel dosbarth a thrafodwch y broses.
   - Faint o ddysgwyr a oedd wedi newid eu safbwynt?
   - Beth a oedd wedi achosi iddynt newid eu meddyliau?
   - Beth y mae'r dysgwyr wedi ei gyflawni o ganlyniad i'r broses hon?

Llun: Vincent Tremeau/Oxfam

MYFYRIO

Ar ôl cwblhau unrhyw rai o'r gweithgareddau uchod, mae'n werth treulio amser yn myfyrio ar y broses gyda'r dysgwyr.

Gofynnwch i'r dysgwyr:

- Pa sgiliau oeddech chi wedi eu dysgu/meithrin o ganlyniad i'r gweithgaredd hwn?
- Beth oedd yr heriau?
- Sut oeddech chi wedi goresgyn yr heriau hyn?
- Pe byddech yn gwneud yr un gweithgaredd eto gyda phwnc arall, sut fyddech chi'n ymdrin ag ef? A fyddech chi'n gwneud hynny mewn ffordd debyg neu mewn ffordd wahanol? Pam?
- Sut y gellid gwneud y gweithgaredd hwn yn fwy heriol?
- A oes yna unrhyw faterion eraill y gallech chi eu harchwilio gan ddefnyddio'r dechneg hon?

Dewch â'r sesiwn i ben trwy ofyn i'r dysgwyr ystyried yr elfennau allweddol ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd-eang weithgar a chyfrifol (darperir hyn yn y tabl ar dudalen 7).

- Sut y mae'r gweithgaredd hwn wedi cyfrannu at eu rôl fel dinasyddion byd-eang gweithgar?

RHAGOR O WYBODAETH

Adnoddau defnyddiol

- **Oxfam Education**
  www.oxfam.org.uk/education
- **Future Youth Schools Forums**
  www.fys-forums.eu
- **Sapere**
  www.sapere.org.uk
- **The P4C Co-operative**
  www.p4c.com
- **The Philosophy Foundation**
  www.philosophy-foundation.org/p4c
- **Association for Citizenship Teaching**
  www.teachingcitizenship.org.uk
- **Citizenship Foundation**
  www.citizenshipfoundation.org.uk
- **Cumbria Development Education Centre**
  www.cdec.org.uk
- **Development Education Centre South Yorkshire**
  www.decsy.org.uk
- **Liverpool World Centre**
  www.liverpoolworldcentre.org
- **Y Rhaglen Dysgu Byd-eang**
  www.glpw.globaldimension.org.uk
- **Gender Respect Project**
  www.genderrespect2013.wordpress.com
- **Scotdec**
  www.scotdec.org.uk
- **Think Global**
  www.think-global.org.uk
- **Cyngor Ewrop (2015),** 'Living with Controversy. Teaching Controversial Issues Through Education for Democratic Citizenship and Human Rights'
  www.ec.europa.eu/home-affairs/node/11687_en
- **Dolenni'r cwricwlwm ar gyfer Lloegr**
  www.gov.uk/government/organisations/department-for-education
- **Dolenni'r cwricwlwm ar gyfer yr Alban**
  education.gov.scot/
- **Dolenni'r cwricwlwm ar gyfer Cymru**
  learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy
  www.gov.wales/?lang=cy

Cydnabyddiaethau

Gyda diolch i'r sefydliadau canlynol am eu cyfraniadau i'r canllaw diwygiedig hwn:
CDEC, DECSY, Y Rhaglen Dysgu Byd-eang, Liverpool World Centre, SAPERE, Scotdec a Think Global.

Cyfeiriadau

1. education.gov.scot/
2. learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy
3. www.gov.uk/government/organisations/department-for- addysg
4. Ofsted (2017), *School Inspection Handbook,* Manceinion: Ofsted
5. www.valuesandframes.org
6. Association for Citizenship Teachers (2015), *The Prevent Duty and teaching controversial issues: creating a curriculum response through Citizenship. Guide for Teachers*
7. C. Davies (2016), 'Childlike anxiety calls spike as children express fears over global events', *The Guardian*, 31 Hydref
8. I. Wybron, S. Vibert, a J. Smith (2017), 'Next Generation UK Demos', British Council www.britishcouncil.org/research/next-generation-uk
9. think-global.org.uk/our-work/projects/start-the-change/
10. Voices of Youth (2017), 'New discussion: Fake News, What are your tips for telling what's real and what's fake on the internet?', www.voicesofyouth.org/en/connect/our-debates/new-discussion--fake-news
11. E. Somers (2017), 'News versus Newsfeed: The Impact of Social Media on Global Citizenship Education', *Policy & Practice: A Development Education Review, 24*, Gwanwyn: 126-37
12. J. Birdwell and M. Bani (2014), *Introducing Generation Citizen,* Llundain: Demos
13. Media Reform Coalition (2015), *Who owns the UK media?,* Llundain: Media Reform Coalition
14. Oxfam (2015), *Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang: Arweiniad i Ysgolion,* Rhydychen: Oxfam GB
15. *ibid*
16. Deddf Cydraddoldeb (2010), www.legislation.gov.uk
17. Y Cenhedloedd Unedig (1948), Datganiad Byd-eang ar Hawliau Dynol www.un.org/en/universal-declaration-human-rights/
18. Deddf Cydraddoldeb (2010), www.legislation.gov.uk
19. Oxfam (2015), *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon,* Rhydychen: OxfamGB
20. S. Gorard, N.Siddiqui a B. Huat See (2015), *Philosophy for Children: Evaluation report and executive summary,* Llundain: Y Sefydliad Gwaddol Addysgol
21. www.sapere.org.uk
22. www.cdec.org.uk
23. Bliss, T., G. Robinson a B. Maines (1995), *Developing Circle Time* Llundain: Paul Chapman Publishing
24. Montgomery, A. a Birthistle, U. (2001), *Primary Values*
25. www.genderrespect. 2013.wordpress.com
26. www.sfyouth.eu
27. Fisher, R. (2003), *Teaching Thinking,* ail argraffiad, Llundain: Continuum

© Oxfam GB 2018. Cedwir pob hawl.

Gwarchodir y llyfryn hwn gan hawlfraint, ond gellir ei atgynhyrchu mewn unrhyw ddull heb ffi at ddibenion addysgu. Am ganiatâd hawlfraint o dan unrhyw amgylchiadau eraill, i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu i'w gyfieithu neu ei addasu, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y canlynol: Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Oxford OX4 2JY.

E-bost: education@oxfam.org.uk. Efallai y bydd ffi yn daladwy.
Argraffwyd ar bapur sydd wedi cael ei ailgylchu 100%.

oxfam.org.uk/education

Llun ar y clawr blaen: Ffoaduriaid ac ymfudwyr yn cyrraedd glannau Lesbos, Gwlad Groeg yn 2016. Llun: Pablo Tosco/Oxfam

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (202918), ac yn yr Alban (SC039042). Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam International.

OXFAM

WE **WON'T** LIVE WITH POVERTY